**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
29 Tachwedd 2023

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1. Diben yr offeryn hwn yw:

- Rhoi grym cyfreithiol i benderfyniad gweinidogion Cymru o blaid awdurdodi tri ar ddeg o geisiadau ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid.
- Darparu trefniadau pontio yn dilyn newid cod adnabod ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid a awdurdodwyd yn flaenorol (Endo-1,4-beta-sylanas (3.2.1.8)), i alluogi disbyddu stociau cyfredol.
- Dirymu awdurdodiadau sydd wedi dod i ben.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dirymu awdurdodiadau Cobalt(II) sydd wedi dod i ben

2. Mae gweinidogion Cymru, drwy benderfyniad gweinyddol yn unol â'r weithdrefn awdurdodi brys yn Erthygl 15 o Reoliad (CE) Rhif 18312003 (EUR 2003/1831), wedi awdurdodi dros dro y pedwar ychwanegyn bwyd anifeiliaid sef cobalt(II) asetad tetrahydrad, cobalt(II) carbonad, cobalt(II) carbonad hydrocsid (2:3) monohydrad a chobalt(II) sylffad heptahydrad am 5 mlynedd arall yng Nghymru. Rhagnodwyd ffurfiau'r awdurdodiadau dros dro hynny gan Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Ffurf Awdurdodiadau Dros Dro) (Cyfansoddion Cobalt(II)) (Cymru) 2023 (OS 2023/678 (Cy. 100)). Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 601/2013 (EUR 2013/601) i ddileu'r ychwanegion sydd bellach wedi dod i ben mewn perthynas â'r awdurdodiadau blaenorol dan sylw.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Awdurdodi tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid

3. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig[1].

4. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am gynnal asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.

[1] Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

5. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy’n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr ‘awdurdod priodol’, mae gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ynghylch awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

6. Mae ychwanegion bwyd yn sylweddau, micro-organebau neu baratoadau (ar wahân i ddeunyddiau a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid) sy’n cael eu hychwanegu’n fwriadol at fwyd anifeiliaid neu ddŵr er mwyn cyflawni un neu ragor o’r swyddogaethau penodol.

7. Mae’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi’i gynnwys yn Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 a ddargedwir (EUR 2003/1831). Mae deddfwriaeth i reoleiddio amodau labelu a phecynnu ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid wedi’i chynnwys o dan Erthygl 16 o EUR 2003/1831.

8. Cyn ymadael â'r UE, roedd y DU yn derbyn asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodiad ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod gweithredu, mae'r ASB wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol.

9. Cyhoeddodd EFSA eu safbwynt ar gyfer deuddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid cyn i asesiad risg Prydain Fawr ddechrau. Adolygodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) bob safbwynt, ynghyd â’r holl ddogfennaeth ategol, wrth lunio eu hasesiad diogelwch annibynnol.

10. Y trydydd ar ddeg ychwanegyn bwyd anifeiliaid, 3-Nitroocsypropanol (y cyfeirir ato fel ‘3-NOP’) yw’r cais cyntaf y penderfynwyd arno a oedd yn destun asesiad diogelwch llawn gan yr ASB/FSS.

11. Safbwynt yr ASB/FSS ym mhob achos oedd bod yr ychwanegion bwyd anifeiliaid, fel y disgrifir yn y ceisiadau, yn ddiogel ar gyfer y rhywogaeth darged, defnyddwyr, a’r amgylchedd. Mae copi o safbwynt yr ASB/FSS ar gael yma: [Safbwynt yr ASB/FSS ar ddeuddeg cais am ychwanegion bwyd anifeiliaid: Crynodeb | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd]

12. Mae’r offeryn hwn yn gymwys i Gymru. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi’i llunio yn Lloegr a’r Alban. Daw’r ddeddfwriaeth i rym ar draws Prydain Fawr ar 22 Rhagfyr 2023.

13. Mae’r ychwanegion bwyd anifeiliaid a awdurdodir gan yr offeryn hwn wedi’u hawdurdodi am gyfnod o ddeng mlynedd o’r dyddiad y daw’r offeryn i rym.

14. Mae'r ASB yn cadw cofrestr gyhoeddus o ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganiateir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Mae'r gofrestr ar gael ar wefan yr ASB.

15. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

16. Diben y ddeddfwriaeth hon yw awdurdodi rhoi tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad, a hynny'n gymwys yng Nghymru.

17. Mae'r awdurdodiadau ar gyfer y canlynol:

- ychwanegion bwyd anifeiliaid sy'n darparu microfaethynnau hanfodol i ddeietau anifeiliaid, fel asidau amino.
- ychwanegion technolegol, fel sylweddau ychwanegion silwair gan gynnwys ensymau neu ficro-organebau y bwriedir eu cynnwys mewn bwyd anifeiliaid i wella cynhyrchiant silwair.
- ychwanegion sootechnegol, fel sylweddau sy'n gwella treuliadwyedd sydd, o'u bwydo i anifeiliaid, yn cynyddu treuliadwyedd deiet trwy eu rhoi mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid targed a sylweddau sy'n dda i'r amgylchedd.

18. O'r tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid, mae deg yn ymwneud ag awdurdodiadau newydd ac mae tri yn ymwneud ag adnewyddiadau.

**Trefniadau Pontio**

19. Mae'r offeryn hwn yn cynnwys trefniadau pontio yn dilyn newid cod adnabod ar yr awdurdodiad adnewyddu ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid a awdurdodwyd yn flaenorol, sef Endo-1,4-beta-xylanase (3.2.1.8)), i alluogi disbyddu stociau cyfredol.

## 5. Ymgynghoriad

20. Ar 25 Mai 2023 lansiodd yr ASB ymgynghoriad wyth wythnos yng Nghymru a Lloegr ar y ffactorau cyfreithlon eraill sy'n berthnasol i'r tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol am wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 20 Gorffennaf 2023. Lansiwyd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.

21. Daeth cyfanswm saith ymateb i law o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan gymdeithasau masnach sy'n cynrychioli dros ddau gant a hanner o aelodau a busnesau sydd â buddiant mewn ychwanegion bwyd anifeiliaid/bwyd anifeiliaid. Roedd pum ymateb yn gefnogol, ac nid oedd un ymateb yn uniongyrchol berthnasol i'r ceisiadau dan ymgynghoriad, heblaw am ymateb cyffredinol i lansiad yr ymgynghoriad. Roedd yr ymateb arall gan gwmni a dynnodd sylw at rai mân wallau drafftio yn safbwynt yr ASB/FSS ac roedd yn cynnig diwygiadau i'w hystyried ar gyfer

dogfennau ymgynghori yn y dyfodol.

22. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru am yr ymgynghoriad, ac anfonodd ddolen i'r ymgynghoriad at awdurdodau lleol ar ôl ei lansio. Gwnaeth yr ASB hefyd roi gwybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio, a rhoddodd ddiweddariad i randdeiliaid yng Nghymru eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben.

23. Ystyriwyd ymatebion rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/FSS. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r pedair-gwlad (yr ASB yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, ac FSS), yn unol â'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Cyffredin dros dro. Ni wnaeth unrhyw ymatebion gan randdeiliaid arwain at newid argymhelliad yr ASB i weinidogion Cymru.

24. Cyhoeddodd yr ASB yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan yr ASB.

25. Mae ymatebion i ymgynghoriad FSS i'w gweld ar wefan FSS.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

26. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

27. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.